

Pecyn o gefnogaeth ychwanegol i ddysgwyr

Rydym wedi llunio pecyn cymorth ar gyfer dysgwyr mewn blynyddoedd arholiad gyda'r bwriad o fynd i'r afael â phryder dysgwyr a darparu cefnogaeth i'r addysgu a'r dysgu. Pecyn cyllido gwerth £24m yw hwn, a fydd yn darparu cefnogaeth i ysgolion, colegau a dysgwyr mewn tair ffordd:

1. Cefnogi lles dysgwyr a lleihau pryder am arholiadau:

- Dysgu ar-lein ac adnoddau adolygu ar gyfer dysgwyr
 - o [buddsoddiad mewn adnoddau ychwanegol CBAC er enghraifft canllawiau adolygu, canllaw cam wrth gam ar gyfer arholiadau a threfnwyr gwybodaeth](#)
 - o [Sesiynau cefnogi ac adolygu rhithiol TGAU E-sgol](#)
 - o [Pecyn Cymorth Iechyd Meddwl](#)

2. Cefnogi dysgu ac addysgu mewn blynyddoedd arholiad

- Rhoi cyllid i ysgolion (trwy'r rhanbarthau a'r partneriaethau) i ddarparu cefnogaeth ychwanegol mewn ffordd hyblyg gyda ffocws penodol ar fyfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau Mathemateg, Saesneg neu Gymraeg TGAU i ddiwallu anghenion y dysgwyr ym mhob ysgol. Gellir defnyddio'r cyllid hyblyg hwn yn ôl disgrisiwn yr ysgol a gellid ei ddefnyddio i flaenoriaethu'r myfyrwyr sydd â'r angen mwyaf am adnoddau addysgu, astudio, mentora, cymorth adolygu ac adolygu ychwanegol i wella eu cyfle i berfformio yn eu TGAU - yn enwedig y pynciau craidd sy'n galluogi dilyniant. Bydd y cyllid yn cael ei bwysoli gan niferoedd dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim i dargedu'r dysgwyr hyn yn well.

3. Galluogi dysgwyr i gymryd eu camau nesaf

- Er mwyn sicrhau bod dysgwyr blwyddyn 11, 12 a 13 yn cael cyfle i ystyried yr ystod lawn o opsiynau sydd ar gael iddynt, mae cyllid yn cael ei ddarparu er mwyn rhoi mynediad i adnoddau a darparu cefnogaeth wedi'i phersonoli o ran cymwysadau a chymorth dysgu wrth iddynt drosglwyddo i AB ac AU. Gellir cyflawni hyn trwy fecanweithiau fel digwyddiadau agored rhithwir, ymgysylltu rhwng ysgolion a cholegau a mynediad at adnoddau trosglwyddo (megis rhaglen ['Barod ar gyfer Prifysgol'](#) a ddatblygwyd llynedd gyda'r Brifysgol Agored).
- Bydd darpariaeth hefyd wedi'i thargedu yn cael ei ddarparu drwy awdurdodau lleol sy'n canolbwyntio ar ddysgwyr blwyddyn 11 nad ydynt yn mynychu'r ysgol, ac a allai fod â llai o ymgysylltiad â dysgu. Byddai'r dull hwn yn tynnu at ei gilydd mewn bwn gan swyddogion presenoldeb, cynghorwyr o'r gwasanaeth gyrfaoedd, Ffederasiwn Hyfforddi Cenedlaethol Cymru a phartneriaid AB.

Yn gynnar yn y flwyddyn newydd, bydd cyfathrebu ar y cyd gan CBAC, Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru i dynnu sylw athrawon a dysgwyr at y gefnogaeth hon a chynnig gwybodaeth bellach i ddysgwyr o'r hyn i'w ddisgwyl o drefniadau arholiadau 2022.